# SIONED HUWS A'I
# BYD O DDAWNS

**Sioned, dowch a'ch hanes i ni – mae gwefan Aomori Aomori yn fy hudo.**

Mae'n amlwg i mi fod dawns yn gynhenid ynof ac ynghlwm â'm magwraeth ar fferm y teulu, sef Tai Isaf, Pentir wrth droed Eryri. Yno roedd bywyd beunyddiol yn troi o amgylch byd natur a'r gymdogaeth leol. Byw corfforol o reidrwydd oedd byw ffermwyr yr adeg honno, ac er y bu raid rhoi'r gorau i'r fferm wedi marwolaeth annhymig fy rhieni, dwi'n teimlo fy mod yn dilyn ôl eu troed mewn ffordd gorfforol wahanol, drwy ddawnsio. Gweddnewid eu ffordd o fyw yn fynegiant corfforol dwi'n drio ei wneud – byw y cof amdanynt drwy ddawns, sy'n weddnewid Mabinogaidd i raddau.

**Gawsoch chi wersi dawnsio o gwbl?**

Do. Mynd i ddosbarth Dawnsio Cyfoes Geoff Powell ym Mangor wnes i ar gyngor ffrind, fel darpariaeth gogyfer â mynd i'r Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd. A'r profiad hwn oedd 'eureka' i mi – gwyddwn yn sicr mai dyma fy llwybr. Ond oherwydd dylanwadau cynharach, megis diddordebau diwylliannol Mam yn arlunio, canu a chanu'r piano, actio a dawnsio efo ni'r plant adref, a chylchgrawn addysgol y *National Geographic* a ddaeth i ni'n fisol drwy garedigrwydd modryb, roedd cariad naturiol gen i at rhythmau dawnsfeydd o bob rhan o'r byd, a byddwn yn aml yn dychmygu'r rhain wrth ddawnsio yn y fron goed gerllaw fy nghartref yn blentyn. Felly coleg dawns y *Laban Centre for Movement and Dance* yn Llundain a orfu dros Gaerdydd, a deuthum yn aelod o gwmni dawns y coleg, *Transitions*. Un noson yn Sadler's Wells, gwelais berfformiad gan gwmni Merce Cunningham o Efrog Newydd a sylweddoli fod y perfformiad yn cyfleu yr hyn a deimlwn innau ym mêr fy esgyrn, sef bod cyffelybiaeth rhwng symudiad y byd naturiol o'n cwmpas a symudiadau'r dawnsio o'm blaen. O'r foment honno, roeddwn am astudio gyda Merce Cunningham, ac yn Efrog Newydd o dan ei ddylanwad y dechreuais gyfansoddi fy ngwaith coreograffi fy hun. Ysbrydolwyd fi gan fywyd bob dydd strydoedd y ddinas, a gan ddulliau dawns ôl-fodern a gwestiynai ffurfioldeb dawns draddodiadol. Felly dyma arbrofi gan edrych ar ddawns fel mynegiant o fywyd naturiol bob un ohonom.



Ymgolli mewn sŵn a symudiad
*Llun* Jun Matsuyama

Fel canlyniad i'r dylanwadau hyn, mi fydda i wastad yn ceisio mynegi a deall pwy ydw i fel perfformiwr, ac yn ceisio adlewyrchu fy nghefndir a'm magwraeth, sy'n sylfaen i'r deall hwnnw. Haenau o brofiad sydd yn ein gwneud yr hyn ydym; mynegiant o hynny yw dawns, sydd o reidrwydd yn foment fer i'w rhannu gyda'n gilydd, a'i goleddu.

Mae 'na rywbeth cyntefig, defodol yn hyn i raddau yn ogystal â rhywbeth ôl-fodern, a dwi'n teimlo efallai y gellid ymchwilio ac arbrofi mwy yn y maes hwn yng Nghymru. Nid rhywbeth ar wahan i fywyd bob dydd yw dawns, i'w fwynhau yn unig ar orig gymdeithasol, ond dull o gyfathrebu a dathlu ein cyswllt â'n gilydd dros gyfandiroedd. Yr un sy'n sail i bob un ohonom ym mhob man – ein profiadau, ein cof, ein natur ddynol. A dyna ddeunydd crai dawns, fel pob celfyddyd.

**Sut y tyfodd eich cyswllt â Japan?**

Cefais gyfle yn 2008, drwy gymorth James Tyson yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter, Caerdydd i ymweld ag Aomori, sef ardal ogleddol Tsugaru yn Japan, i weithio fel Artist Preswyl gyda'r Athro Teiko Hinuma, oedd yn Guradur Canolfan Celfyddydau Cyfoes Aomori ar y pryd, ac a ddaeth yn gynhyrchydd y Prosiect Aomori Aomori – prosiect a ddatblygais wrth brofi naws arbennig yr ardal hon yn Japan.

Yn Aomori mae'r hafau yn fyr a'r gaeafau yn stormydd eira di-ddiwedd, a'r tawelwch a ddaw yn eu sgîl. Mae'r tirwedd yn trawsnewid o goedwigoedd glaswyrdd yn flanced wen. Ac mae'r corff yn addasu: y galon yn arafu a'r awydd i orwedd yng ngwely'r eira yn gryf. Ond rhaid ymladd yn erbyn y syrthni; rhaid symud – a dyna a wna synau, caneuon a dawnsfeydd Tsugaru, sef ymgorffori'r tirlun wrth ymateb iddo'n greadigol.

A dyna a wnes innau wedi cyrraedd Aomori a phum diwrnod o stormydd eira, yr hin yn iasoer, a dim i'w weld drwy'r



Sioned yn cysidro'r cam nesaf *Llun* Gigi Giannella



Y ddeuawd ddawns – Reina Kimura a Sioned Huws
*Llun* Massimiliano Simbula a Kym Chang-Kyum

trwch gwyn yn fy nghartref newydd. Collais ymwybyddiaeth o gyfeiriad a lle, fel pe bawn ar goll yn y gwynder o'm hamgylch. Roeddwn ofn yn y byd didostur hwn. A'r unig ateb oedd creu mynegiant i'r amgylchfyd – creu deuawd corfforol i gyfleu cyfeiriad a diffyg cyfeiriad o fewn gofod undonog, ail-adroddus – dawns lle mae'r dawnswyr ar eu hyd ar lawr, ond yn symud yn union fel pe baent ar eu deudroed. Ac mae unrhywbeth ail-adroddus yn help i ddileu ansicrwydd a dryswch. Mae cyfri curiadau yn creu patrwm. A'r patrwm yn creu hyder, a'r hyder yn creu hoen. Daeth fy llwybr yn glir.

**Ac mae'r Prosiect wedi bod yn llwyddiant ysgubol, Sioned, a chithau fel ei gyfarwyddwr artistig, wedi teithio gyda'ch cyd-berfformwyr i ddinasoedd megis Tokyo, Yokohama, Singapore, Naples, Florence, Llundain, Caerdydd a Chaernarfon – sy'n dod â chi yn ôl at eich gwreiddiau yn Arfon a'r tirlun mynyddig sy'n gymaint rhan ohonoch. Dywed yr Athro Hinuma i'ch gwaith gyda'r Prosiect fod yn gofiadwy oherwydd eich dealltwriaeth arbennig o le ac o bobl a'r berthynas rhyngddynt, gan greu dathliad o fywyd drwy ddawns. Diolch am eich dawn.**

Os am weld cynhyrchiad arbennig Sioned, ewch i'w gwefan: sionedhuws.net


Rhifyn nesaf allan **1 Mawrth 2015**
Erthyglau i'r Golygydd: **Wendy Lloyd Jones**, Ceiriad, Cilan, Pwllheli LL53 7DB 01758 712169 wmlj@btconnect.com
**erbyn 10 Ionawr 2015**